



Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

DATGANIAD SEFYLLFA

Safonau Masnach..... Cyfrannu at Ffyniant a Thwf Economaidd

CRYNODEB GWEITHREDOL

Twf economaidd yw asgwrn cefn cymunedau llwyddiannus. Os yw busnesau'n gallu ffynnu a thyfu yna mae cyflogaeth yn dilyn yn naturiol. Mae rheoleiddio safonau masnach yn cadw marchnadoedd yn deg. Mae'n sicrhau nad yw troseddoldeb, boed yn nwyddau neu arferion anniogel sy'n rhoi defnyddwyr dan anfantais, yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o fusnesau sydd am gydymffurfio â'r gyfraith. Mae rhoi cyngor proffesiynol i fusnesau ar reoleiddio yn hanfodol i wneud ardal awdurdod lleol yn lle gwyb i sefydlu a rhedeg busnes.

Mae Safonau Masnach ledled Cymru yn cefnogi busnesau ag enw da ac yn cymryd camau cadarn yn erbyn masnachwyr twyllodrus. Mae'r ddau weithgaredd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth y DU i gyflawni eu hymrwymadau i gefnogi a thyfu economïau cenedlaethol a lleol; a chefnogi llesiant a ffyniant economaidd busnesau a diwydiant yng Nghymru. Heb waith Swyddogion Safonau Masnach ymroddedig byddai busnesau twyllodrus yn rhydd i darfu ar y farchnad a thynnu cyfoeth allan o'r economi o ran incwm a gollwyd i fasnachwyr cyfrifol; a chael gwared ar gynilon prin eu dioddefwyr. Yn ogystal, mae Swyddogion Safonau Masnach ar gael i fusnesau ddarparu eu harbenigedd ar gydymffurfio trwy drefniadau ffurfiol ac anffurfiol. Gall busnesau ddefnyddio gwybodaeth y swyddogion hyn i 'wneud pethau'n iawn y tro cyntaf' ac atal costau galw'n ôl a heriau cyfreithiol ac erlyniad. Mae'r dull hwn wedi bod yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig COVID-19 diweddar. Roedd Safonau Masnach yn darparu cryn dipyn o gyngor ar gyfer busnesau newydd a'r rhai sydd angen newid gweithrediadau i glicio a chasglu neu eu dosbarthu ar-lein.

NODAU, AMCANION AC YSGOGWYR Y LLYWODRAETH

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnwys y nod llesiant "Cymru lewyrchus". Nod y Ddeddf yw meithrin cymdeithas arloesol a chynhyrchiol; defnyddio adnoddau'n effeithlon; a sicrhau economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyflogaeth dda. Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn rhoi dyletswydd ar swyddogaethau rheoleiddio fel Safonau Masnach i ystyried yn llawn hybu twf economaidd wrth wneud penderfyniadau polisi a phenderfyniadau unigol ar weithredwyr busnes. Cyflwynodd Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 y cynllun Awdurdod Sylfaenol statudol. Mae hyn yn galluogi rhai busnesau i fod yn gyfrifol am eu rheoleiddio a thrwy broses o gydweithio â Safonau Masnach i gael cyngor sicr a fydd yn eu helpu i gydymffurfio ac arbed arian. Mae pob cyngor

yng Nghymru yn nodi ei flaenoriaethau corfforaethol lleol ac yn cynhyrchu cynlluniau gwella: ac maent yn anochel yn darparu ymrwymiad i wella'r economi leol.

CYFRANIAD AT YR AGENDA

Mae Safonau Masnach yn cefnogi cydymffurfiaeth busnes trwy gymorth busnes gweithredol. Mae swyddogion yn defnyddio eu harbenigedd i arwain busnesau drwy'r "ddrysfa gydymffurfio".

Awdurdod Sylfaenol

Mae Awdurdod Sylfaenol yn caniatáu i fusnesau gymryd rhan yn eu rheoleiddio eu hunain. Mae'n eu galluogi i ffurfio partneriaeth statudol ag un awdurdod lleol, sydd wedyn yn darparu cyngor cadarn a dibynadwy i gynghorau eraill ei ystyried wrth gynnal arolygiadau neu fynd i'r afael â phroblemau. Mae Partneriaethau o'r fath yn helpu busnesau i reoli perthnasoedd ag awdurdodau lleol ledled y DU, symleiddio prosesau rheoleiddio a lleihau cost cydymffurfio; cyflawni arbedion ariannol sylweddol; a lleihau risg. Yn ystod 2020/21 roedd 68 o Bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol ar waith yng Nghymru sy'n ymwneud â 60 o fusnesau ac 8 cymdeithas fasnach, pob un â sawl aelod.

Cynlluniau Masnachwyr Sicr

Mae Gwasanaethau Safonau Masnach yn cefnogi Cynlluniau Masnachwyr Cymeradwy ledled Cymru gydag 8 awdurdod lleol yn cefnogi 59 o fusnesau yn ystod 2020/21, sef 53% o'r holl wasanaethau safonau masnach lleol. Nod y cynlluniau hyn yw cymryd y risg allan o ddod o hyd i fasnachwr da. Gall Safonau Masnach gyfeirio defnyddwyr at fasnachwyr sy'n aelodau o gynlluniau o'r fath. Mae hyn yn gadarnhaol iawn i fusnes (mae'n caniatáu i fasnachwyr ag enw da ddangos eu henw da) ac i ddefnyddwyr (gan ei fod yn eu cyfeirio oddi wrth y masnachwyr twyllodrus).

Gwylidwriaeth y Farchnad

Mae cyfreithlondeb a chadernid y farchnad yn cael eu profi'n rheolaidd; i sicrhau nad yw un busnes yn cael mantais annheg trwy dorri corneli. Mae gweithgareddau nodweddiadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys gwiriadau ar:

- Ddilysrwydd cig;
- Cywirdeb datganiadau hysbysebu (e.e., Croeso Cymru);
- Diogelwch cynhyrchion (PPE, tegantau, offer trydanol);
- Profion TB ar wartheg;
- Safonau porthiant ar ffermydd; ac
- A yw mecanyddion ceir yn defnyddio meddalwedd data ffug

Mynd i'r Afael â Masnachwyr Twyllodrus a Thwyllwyr

Mae Safonau Masnach hefyd yn sicrhau bod masnachwyr twyllodrus a thwyllwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys. Mae gweithgarwch anghyfreithlon o'r fath yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r dioddefwyr i barhau i fod yn economaidd weithgar; a hefyd yn tanseilio gallu busnesau ag enw da i gystadlu mewn amgylchedd annheg.

ENGHREIFFTIAU O GYMORTH:

Cyngor Sir Ynys Môn Yn ystod 2020-21, roedd mwyafrif y busnesau newydd yn siopau codi (pop-ups) o ganlyniad i'r pandemig neu'r busnesau presennol yn arallgyfeirio. Darparwyd cefnogaeth ar ffurf cyngor ac arweiniad ynghylch yr holl gyfreithiau, rheoliadau ac arferion masnachu perthnasol. Mae cefnogaeth wedi bod yn mynd rhagddi a rhai atgyfeiriadau i Busnes Cymru i gynorthwyo mwy o fusnesau tymor hir. O ganlyniad i ymholiadau cysylltiedig â Covid gan fusnesau, crëwyd pecynnau post a phecynnau gwybodaeth ar bryderon pwnc-benodol a'u dosbarthu i amrywiol sectorau busnes i gwmpasu'r holl ymholiadau posibl wrth i reoliadau gael eu diwygio a diweddarau canllawiau.

Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir Ers i Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir ddod i fodolaeth yn 2015, mae wedi datblygu ystod o wasanaethau i gefnogi busnesau lleol gan gynnwys sesiynau arweiniad pwrpasol a darparu cyrsiau hyfforddi. Arweiniodd heriau 2020-21 at adolygiad o'r ffordd y mae cefnogaeth i fusnesau wedi'i darparu, i weddu yn well i anghenion y gwahanol sectorau masnach sy'n newid yn gyflym.

Ymhlith ei bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol, mae gan Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir dair gydag archfarchnadoedd mawr ar gyfer materion datganoledig yn unig. Trwy sgwrs reolaidd, mae'r gwasanaeth wedi gallu cynorthwyo'r cwmnïau hyn i lywio'r newidiadau, a wnaed ar gyflymder, i Reoliadau Cyfyngiadau Coronafirws yng Nghymru. Ar yr un pryd, cynorthwyodd y gwaith hwn awdurdodau lleol ledled Cymru wrth i'r Gwasanaethau weithredu fel cyfrwng ar gyfer ymholiadau am y mesurau sydd ar waith ar draws yr amrywiol siopau, a thrwy hynny gynorthwyo cysondeb ac osgoi dyblygu. Llwyddodd y Gwasanaethau i sicrhau bod crynodeb o'r trefniadau y gallent ddisgwyl eu gweld yn cael eu rhoi ar waith gan fanwerthwyr yr Awdurdod Sylfaenol ar lefel siop leol o ran diogelwch COVID i wasanaethau rheoleiddio eraill awdurdodau lleol. Mae'r dogfennau cryno hyn yn nodi'r modd yr oedd siopau'n anelu at sicrhau cydymffurfiaid â phethau fel nwyddau nad ydynt yn hanfodol, gwisgo gorchuddion wyneb, trefniadau glanhau a hefyd wrth reoli capasiti'r siopau. Diweddarwyd y dogfennau hyn yn ôl yr angen, er enghraifft i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau Coronafirws.

Am enghreifftiau pellach ewch i'n gwefan:

<https://safonaumasnach.llyw.cymru/cym/home/>

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu llawer o'r cyllid sy'n galluogi awdurdodau lleol i gefnogi Gwasanaethau Safonau Masnach. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dwf economaidd ac mae Safonau Masnach yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd masnachu teg sy'n darparu cystadleuaeth deg er mwyn caniatáu i dwf economaidd ffynnu. Mae'n hollbwysig, felly, bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau ar y gwasanaethau bach hyn os yw'r cyhoedd i gael eu hamddiffyn ac i fusnesau gael y cyngor sydd ei angen arnynt i lwyddo.

Gall Safonau Masnach gyfrannu'n sylweddol i dwf y farchnad ar ôl y pandemig trwy gefnogi busnesau sydd wedi cael trafferth trwy ddarparu cyngor ac arweiniad ar gydymffurfio gan sicrhau bod ganddynt fantais gystadleuol trwy fod yn fasnachwyr dibynadwy ac ag enw da.

Gorffennaf 2022